

*Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin*

*Disgrifiad o'r modiwl*

Mae B14 Hanfodion cyfrifyddu yn rhoi cyflwyniad eang i astudio cyfrifyddu ar lefel prifysgol. Mae'n cwmpasu hanfodion cyfrifyddu ariannol a chyfrifyddu rheolaeth yn ogystal â'r sgiliau, y wybodaeth a'r foeseg sydd eu hangen er mwyn fod yn gyfrifydd proffesiynol. Mae'r modiwl hefyd yn addas ar gyfer astudiaethau rheoli cyffredinol gan ei fod yn ymdrin â pharatoi a deall adroddiadau ariannol yn seiliedig ar system cadw cyfrifon cofnod dwbl. Mae'r gyfryw system yn hanfodol ar gyfer rheoli unrhyw sefydliad. Bydd myfyrwyr yr Ysgol Reolaeth hefyd yn cael budd o ddeunyddiau cyfrifyddu eraill yn B124 sy'n canolbwyntio ar fesur perfformiad rheolaeth a gwella cynllunio ariannol, rheolaeth a gwneud penderfyniadau.

*Manyleb y person*

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir ym manyleb gyffredinol y person, dylech allu:

- rhoi tystiolaeth o brofiad diweddar o addysgu pynciau sy'n ymwneud â chyfrifyddu neu o weithio fel cyfrifydd â statws siartredig.
- meddu ar naill ai gradd gyntaf mewn Cyfrifyddu neu Astudiaethau Busnes, NEU radd nad yw'n radd Busnes a chymhwyster ôl-radd mewn pwnc sy'n ymwneud â Chyfrifyddu neu Fwsnes, NEU gymhwyster proffesiynol mewn Cyfrifyddu gan gorff Siartredig.
- rhoi tystiolaeth o brofiad o addysgu a/neu hyfforddi oedolion (caiff profiad sylweddol o hyfforddi, hwyluso a hyfforddi yn y gweithle ei ystyried fel profiad amgen yn lle addysgu ffurfiol, er y caiff pwysoliad ychwanegol ei roi i ymgeiswyr sydd â phrofiad o addysgu AU ar lefel israddedig ac yn arbennig ar Lefel 1).
- bod â phrofiad o ddefnyddio cyfryngau ar-lein cydamseredig ac anghydamseredig mewn amgylchedd addysgu a dysgu (caiff ymgeiswyr sy'n defnyddio cyfryngau masnachol cyfatebol yn y gweithle eu hystyried, er y caiff mwy o bwysoliad ei roi i ymgeiswyr sydd â phrofiad o addysgu drwy Adobe Connect, Blackboard, Collaborate neu unrhyw gyfryngau cyfatebol eraill a ddefnyddir mewn SAU).
- dangos hygredd academaidd ym meysydd cyfrifyddu sy'n gysylltiedig â B124 a thu hwnt. Bydd myfyrwyr yn gweithio ar gysyniadau ac mewn meysydd megis y rhai canlynol: cyfrifyddu agwedd ddeuol, moeseg, datganiadau ariannol sylfaenol ar gyfer unig fasnachwyr, cyfrifon gweithgynhyrchu, cyfrifyddu â chymorth cyfrifiaduwr, dosbarthu costau ac ymddygiad costau, systemau rheoli cyfrifyddu a chynllunio rheolaeth a gwneud penderfyniadau.
- bod â phrofiad o gefnogi myfyrwyr i gyflawni deilliannau dysgu, yn enwedig sgiliau astudio a nodwyd ar gyfer; ysgrifennu academaidd, llythrennedd rhifol, llythrennedd digidol a meddwl yn feiriadol.
- dangos gwybodaeth o faterion cyfoes a datblygiadau mewn maes Cyfrifyddu, yn ddelfrydol yng nghyd-destun y DU a chyd-destun arall heblaw am y DU.

*Gwybodaeth ychwanegol*

Dylid cynnwys elfennau craidd manyleb gyffredinol y person. Dylai ymgeiswyr gyfeirio at y canlynol yn benodol:

- Profiad o weithio gyda charfannau amrywiol o fyfyrwyr ac ymwybyddiaeth o anghenion gwahanol.
- Bod ar gael ac yn hygyrch i fyfyrwyr.

- Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig da yn Saesneg.
- Sgiliau hwyluso ar gyfer y rhai sy'n newydd i addysg drydyddol.

Mae tîm y modiwl yn arbennig o awyddus i ddatblygu'r gefnogaeth a roddir i fyfyrwyr drwy'r amgylchedd dysgu rhithwir a thrwy ddarpariaeth tiwtorialau ar-lein, a byddai'n croesawu ceisiadau gan bobl sydd â brwdfrydedd dros ddefnyddio'r dull hwn o addysgu ochr yn ochr ag addysgu wyneb yn wyneb a phrofiad o hynny.

Disgwylir i chi wneud y canlynol:

- Cynnal ysgolion dydd wyneb yn wyneb (neu'r amser cyfatebol ar-lein).
- Hwyluso fforymau ar-lein a gweithio gydag Adobe Connect (ceir 4 sesiwn Adobe Connect ar gyfer myfyrwyr. Bydd datblygiad staff ar gael i ymgeiswyr, fel y bo'n briodol).

*Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan*

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	4
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	4